Gwartheg Cig Eidion Glân i'w Lladd – Canllaw i gynhyrchwyr



Gwartheg Glân a Diogelwch Cig – rhoi trefn ar bethau

ADAS

Asiantaeth Safonau Bwyd

Cynnwys

Cynnwys 2
Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn? 4
Cyflwyniad 4
Peryglon diogelwch bwyd 5
Neges Allweddol 5
Manteision cynhyrchu gwartheg glân 6
Neges Allweddol 7
Pa mor lân yw fy ngwartheg i? 8
Neges Allweddol 8
Cadw gwartheg yn lân yn ystod y broses o besgi 9
Neges Allweddol 14
Neges Allweddol 18
Neges Allweddol 20
Paratoi gwartheg ar gyfer eu lladd 22
Neges Allweddol 25
Neges Allweddol 27
Neges allweddol 30
Gall tocio waredu baw gweledol 30
Cludo gwartheg sydd wedi eu pesgi 30
Lles gwartheg 31
Neges allweddol 32
Gall ffactorau sy'n gysylltiedig â chludo effeithio ar lanweithdra

gwartheg 32
Lles gwartheg 32
Casgliad 32
Atodiad 1: Gofynion deddfwriaethol ar gyfer da byw glân adeg eu lladd 33
Atodiad 2: Dosbarthu gwartheg o ran glanweithdra 34
Atodiad 3: Diogelwch bwyd a HACCP 37
Atodiad 4: Faint o le yr awgrymir ei roi i wartheg cig eidion a gedwir dan do 39
Atodiad 5: Taflen wybodaeth HSE 40
Atodiad 6: Gofynion deddfwriaethol ar gyfer lles gwartheg 42
Rhagor o wybodaeth 44

Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?

Mae'r llyfryn canllaw hwn ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi cig eidion, er enghraifft ffermwyr, cludwyr, milfeddygon a gweithredwyr lladd-dai a marchnadoedd. Ei nod yw darparu cyngor ar gynhyrchu gwartheg glân i'w lladd.

Cyflwyniad

Gall fod yn dasg anodd cynhyrchu gwartheg glân i'w lladd, oherwydd tywydd gwlyb, misoedd o gadw gwartheg dan do yn y gaeaf a chost/cyflenwadau gwellt gwely. Fodd bynnag, os caiff crwyn eu difwyno â thail adeg lladd, mae risg wirioneddol y gall y cig gael ei ddifwyno â bacteria niweidiol, megis *E.coli O157, Campylobacter* a *Salmonella.* Ni all hyd yn oed y safonau uchaf o ran hylendid lladd-dai warantu y gellir atal difwyno'r carcas a thraws-ddifwyno carcasau gerllaw yn ystod trin. Mae canlyniadau ymchwil wedi dangos, po futraf y croen, yna'r mwyaf o bosibilrwydd fydd i'r carcas gael ei ddifwyno a bydd y risg i iechyd pobl yn uwch, Gallai crwyn gwlyb hefyd gynyddu'r risg oherwydd y gallai bacteria gael eu trosglwyddo'n haws.

Pan fyddant yn cyrraedd lladd-dai yn y DU, caiff anifeiliaid eu hasesu gan weithredwr y safle i bennu a ydynt yn ddigon glân i gael eu lladd. Rhaid i swyddog yr Asiantaeth Safonau Bwyd[1] wirio y defnyddir safonau glendid derbyniol gan weithredwr y lladd-dy wrth ddethol gwartheg fel na pheryglir diogelwch cig. Efallai y bydd angen i'r gweithredwr gadw anifeiliaid budr yn y llociau er mwyn eu glanhau, a gallai hyn olygu costau ychwanegol ar gyfer cynhyrchwyr a gweithredwyr lladd-dai. Y mae er budd cynhyrchwyr a gweithredwyr lladd-dai iddynt sicrhau bod gwartheg yn lân pan gyflwynir hwy i'w lladd. Mar Atodiad 1 yn rhoi manylion y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i dda byw glân sy'n cael eu lladd ac mae'n gywir adeg ei gyhoeddi.

1 Yng Ngogledd Iwerddon caiff goruchwylio a gorfodaeth mewn Eiddo Trwyddedig eu cyflawni gan Yr Adran Amaeth a Datblygu Gwledig (DARD) ar dan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Gellir gweld y wybodaeth hefyd yn y Guide to Food Hygiene and Other Regulations for the Meat Industry, pennod 11, sydd ar gael ar-lein yn http://www.food.gov.uk/business-industry/meat/guidehygienemeat

Peryglon diogelwch bwyd

Gall E. coli O157 a bacteria niweidiol eraill megis *Salmonella* a *Campylobacter* fyw yn llwybr traul gwartheg heb achosi salwch iddynt, a gall gael ei fwrw allan yn eu tail. Nid oes modd i ffermwyr na'u milfeddygon weld bacteria niweidiol yn cael eu cario gan fuchesi neu ddiadelloedd. *Mae E. coli O157* yn un math penodol o *E. coli*, sydd wedi dod i'r amlwg mewn blynyddoedd diweddar, oherwydd y gall niferoedd bach iawn achosi clefydau difrifol, marwol hyd yn oed, mewn pobl.

Neges Allweddol

Gallai da byw gario bacteria niweidiol

Byddwch yn ymwybodol fod bacteria'n byw ar groen ac mewn llwybrau traul

Manteision cynhyrchu gwartheg glân

Mae glanweithdra adeg lladd yn lleihau i'r eithaf y risg posibl i iechyd pobl, yn cyfrannu at gynhyrchu cig diogel, yn gwella oes silff y cig, a hyder defnyddwyr.

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r Gorchmynion Rheoli Clefydau yn gwahardd unrhyw un rhag anfon anifeiliaid i ladd-dy os nad ydynt i'w lladd o fewn 48 awr. Mae hyn yn golygu fod yn rhaid iddynt fod yn ddigon glân i'w lladd ar gyfer bwyd o fewn 48 awr ac ni ellir eu dychwelyd os na chyflawnir hyn. Yn yr Alban, ni fydd anifeiliaid fel arfer yn cael eu dychwelyd i'r daliad y daethant ohono oherwydd ystyriaethau bioddiogelwch.

Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Milfeddyg Swyddogol (OV) awdurdodi dychwelyd anifeiliaid byw i'r fferm y daethant ohoni ar yr amod y gweithredir cyfnod cadw priodol, dan Orchymyn Rheoli Clefydau (Mesur Dros Dro) (Yr Alban) 2002). Mae hyn yn 13 diwrnod ar gyfer gwartheg. Yng Ngogledd Iwerddon darperir cyfleusterau yn y lladd-dy ar gyfer tocio gwartheg budur fel nad yw anifeiliaid yn cael eu dychwelyd i'r fferm.

Yn ogystal, mae difwyno â thail yn achosi niwed anadferadwy i grwyn, ac yn 2004 amcangyfrifwyd fod y gost i ddiwydiant trin lledr Prydain yn £20 miliwn y flwyddyn. Mae llawer o danerdai yn cael eu gorfodi i fewnforio crwyn o dramor, gan dalu prisiau premiwm, a fyddai fel arall yn cael eu trosglwyddo'n ôl i gynhyrchwyr y DU. Mae tanerdai hefyd yn dewis cyflenwyr crwyn yn ôl rhanbarth.
Mae hyn yn golygu, os bydd dim ond ychydig o gynhyrchwyr lleol yn danfon gwartheg budr i'w lladd, bydd pob un o gynhyrchwyr y rhanbarth yn ei chael yn anodd gwerthu eu crwyn i danerdai. Bydd ffermwyr y DU yn cael budd uniongyrchol neu anuniongyrchol drwy gynhyrchu gwartheg glân. Mae canlyniadau danfon gwartheg budr yn cynnwys:

- Costau ychwanegol pan fo gwartheg budr yn cael eu cadw yn y llociau i'w glanhau yn y lladd-dy
- Cost llinell ladd arafach
- Gwerth gostyngol y carcas oherwydd tocio gormodol
- Gwerth gostyngol isgynhyrchion - h.y. lledr
- Colli'r carcas cyfan

Neges Allweddol

Mae gwartheg budr yn costio arian

Peidiwch â bod ar eich colled oherwydd llinellau lladd sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid a wrthodwyd a chrwyn wedi'u niweidio o ganlyniad i dail a thocio diofal

Pa mor lân yw fy ngwartheg i?

Bydd penderfyniadau gweithredwyr o ran glendid yn cynnwys asesu faint o dail a baw sy'n bresennol yn ogystal â pha mor wlyb yw'r croen. Efallai y defnyddir system o ddethol anifeiliaid i gategorïau gwahanol, tebyg i'r system a amlinellwyd yn y Polisi Da Byw Glân (CLP), er mwyn gwerthuso a oes modd i'r anifeiliaid symud ymlaen i gael eu lladd. Dengys Atodiad 2 enghreifftiau o wartheg yr aseswyd eu bod yn ddigon glân i symud ymlaen i'w lladd a gwartheg sy'n rhy fudr, yn enwedig os ydynt yn wlyb, i gael eu lladd. Mae'r enghreifftiau hyn yn darparu arweiniad ar gyfer y lefelau o lendid gwartheg a ddisgwylir pan fyddant yn cyrraedd y lladd-dy.

Efallai y bydd angen i unrhyw anifeiliaid nad ydynt yn cwrdd â gofynion sylfaenol y lladd-dy o ran glendid gael eu cadw yn y llociau gan y gweithredwr er mwyn iddynt sychu ac o bosibl byddant angen eu tocio neu dderbyn triniaeth arall cyn iddynt gael eu lladd. Mae posibilrwydd hefyd y bydd y gwartheg yn cael eu gwrthod. Mae amser ychwanegol a dreulir yn y llociau, tocio, lleihau cyflymder y llinell a gwrthod anifeiliaid i gyd yn golygu costau ychwanegol i gynhyrchwyr a gweithredwyr. Felly mae er lles gorau pawb i sicrhau bod gwartheg yn lân pan gyflwynir hwy i'w lladd.

Neges Allweddol

Mae'r Polisi Da Byw Glân wedi gwella glendid gwartheg

Mae'r polisi wedi arwain at ladd gwartheg glanach

Cadw gwartheg yn lân yn ystod y broses o besgi

Mae glanweithdra gwartheg yn cael ei effeithio'n benodol gan ddeiet, beudai, iechyd gwartheg a'r tywydd. Bydd defnyddio'r cyngor yn y llyfryn hwn o gymorth o ran cadw gwartheg yn lân i'w lladd a gall mabwysiadu ymagwedd sy'n nodweddiadol o Ddadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) tuag at reoli a chynhyrchu gwartheg leihau'r risg o ddifwyno ymhellach (gweler Atodiad 3 am ragor o wybodaeth ar HACCP).

Pesgi ar laswellt

Mae gwartheg a besgir ar laswellt yn gymharol lân, ond gall hafau gwlyb a phriddoedd trwm, a ddraenir yn wael, arwain at anifeiliaid mwdlyd, gwlyb. Mae heintiau sy'n ymwneud â llyngyr gastroberfeddol a phori glaswellt irlas, yn cynyddu'r risg o sgwrio a difwyno gan dail. Mae defnyddio gormod o wrtaith nitrogen
a gorfwydo mwynau hefyd yn achosi i wartheg fod yn rhydd ac yn fudr. Mewn tywydd gwael a phan fydd amodau tir yn wael, efallai y bydd angen cadw anifeiliaid dan do am gyfnod cyn eu lladd, i'w glanhau a'u sychu. Mae angen cymryd gofal i leihau'r risg o anhwylder ar y stumog a sgwrio o ganlyniad o newid mewn deiet a chadw dan do. Argymhellir darparu mynediad rhydd at wellt neu wair cyn ac ar ôl symud yr anifeiliaid dan do.

Dylid ystyried y canlynol wrth gynhyrchu a phesgi gwartheg cig eidion ar laswellt:

- Cynllunio rhaglen wrteithio briodol cyn troi'r gwartheg allan
- Cynllunio rhaglen briodol o reoli parasitiaid gyda'ch ymgynghorydd milfeddygol cyn troi'r gwartheg allan (gofalwch gydymffurfio â chyfnodau diddyfnu yng nghyswllt cyffuriau

gwrthlynghyrol).

- Darparwch fynediad rhydd at wellt neu wair pan fo stoc yn pori ar borfa laswelltog, yn ystod cyfnodau hir o dywydd gwlyb a chyn ac ar ôl mynd â'r gwartheg dan do.
- Symudwch borthwyr cylch a phorthwyr isel yn aml i osgoi sathru a lleidiogrwydd
- Triniwch ddiffygion penodol o ran mwynau a fitaminau y gwyddys eu bod yn digwydd yn eich buches gan osgoi cyflenwi ategion cyffredinol y rhoddir mynediad rhydd atynt
- Dim ond yn ystod cyfnodau risg y dylid cyflenwi magnesiwm i stoc sy'n dueddol o gael clefyd

Deiet

Deietau seiliedig ar silwair a gwreiddiau

Deietau seiliedig ar silwair a gwreiddiau sy'n fwyaf tebygol o arwain at fudreddi gweledol gan eu bod yn achosi llawer iawn o dail gwlyb.

Mae silwair y gellir ei dreulio'n dda ac sy'n cynnwys protein yn ofynnol ar gyfer perfformiad cynhyrchu da, ond er mwyn lleihau i'r eithaf y tebygolrwydd o wartheg budr, dylid:

- Defnyddio maint priodol o wrtaith ar gaeau silwair ac ni ddylid defnyddio gwrtaith o fewn chwe wythnos i'r dyddiad torri disgwyliedig
- Gadewch i'r silwair wywo'n dda pan fo'r tywydd yn caniatáu
- Dadansoddi silwair cyn bwydo. Gallai hyn ganiatáu i chi glustnodi'r silwair mwyaf priodol ar gyfer grwpiau pesgi a lloi ifanc
- Defnyddio dadansoddiad i gydbwyso lefelau protein ac ynni'n gywir yn y dognau
- Darparwch fynediad rhydd i'r gwartheg at wellt o borthwr cylch

neu gafn (nid o'r gwellt gwely yn unig). Neu cynhwyswch wellt wedi'i dorri'n hir yn nognau'r wagen gymysgu

- Ychwanegwch sodiwm bicarbonad at ddognau sy'n cynnwys silwair asidig

Deietau seiliedig ar wair
Mae deietau seiliedig ar wair gynhyrchu gwartheg cymharol lân ond anaml y byddant yn opsiwn ar gyfer anifeiliaid pesgi perfformiad uchel, oherwydd eu gwerth maethol isel.

Deietau grawnfwyd dwys
Mae'r dognau hyn yn cynhyrchu swm bychan o dail sych ac felly bydd gwartheg yn edrych yn lân yn gyffredinol. Fodd bynnag, gall problemau iechyd, gan gynnwys sgwrio, ddigwydd os caiff deiet grawnfwyd dwys ei gyflwyno neu ei newid yn rhy gyflym, os nad oes cydbwysedd maeth ynddo, os oes diffyg ffeibr hir yn y deiet, neu os yw'r grawnfwydydd wedi'u malu'n rhy fân.

- Sicrhewch fod y ddogn yn cynnwys cydbwysedd cywir o brotein, egni, mwynau a fitaminau
- Darparwch fynediad rhydd at wair o gafn neu borthwr cylch (nid o'r gwellt gwely yn unig)

- Defnyddiwch rawnfwydydd sydd wedi'u rholio'n ysgafn, nid wedi'u malu'n fân

Ffactorau dietegol eraill
Mae gorfwydo mwynhau, yn arbennig magnesiwm a halen, yn cynyddu'r risg o ddifwyno'r crwyn â thail drwy achosi sgwrio ysgafn a chynnydd o ran cynhyrchu wrin. Dylai mynediad at fwynau a halen gael ei gyfyngu gan fod gan wartheg dueddiad i fwyta mwy nac sydd ei angen arnynt.
Mae trin grawn a gwellt gyda soda costig yn cynyddu bwyta gormod o halen a chynhyrchu mwy o wrin, a gall achosi sgwrio ysgafn, gan gynyddu'r risg o fudreddi.

Gall newidiadau sydyn mewn bwyd arwain at anhwylder ar y stumog, sgwrio, perfformiad gwartheg gwael a budreddi.

Dylech anelu at:

- Fwydo mwynau a grëir yn ôl y math o ddeiet ac ar lefelau sy'n briodol ar gyfer y math o stoc
- Osgoi rhoi cyflenwad rhydd o fwynau neu lyfleoedd halen
- Osgoi porthiannau sydd wedi'u trin â soda costig mewn dognau pesgi
- Gwneud newidiadau i ddeiet yn raddol bob amser

Neges Allweddol

Mae angen ystyried deiet cyn lladd gwartheg

Talwch sylw i fwydo fel bod tail yn galed neu y crëir llai ohono

Cadw o dan do

Yn y DU mae nifer y gwartheg budr a wrthodir adeg eu lladd yn uwch rhwng mis Hydref a mis Ebrill. Mae beudai a gaiff eu dylunio a'u rheoli'n wael yn ffactorau sy'n cyfrannu'n sylweddol at hyn. Mae anos cadw gwartheg yn lân mewn iardiau delltog nag mewn iardiau sy'n cynnwys gwellt gwely, ond gall system ddelltog a reolir yn dda gynhyrchu gwartheg glanach na iard wellt a reolir yn wael.

Dyluniad cyffredinol adeiladau

Mae awyru, draenio ac wynebwedd dda yn ystyriaethau pwysig ar gyfer adeilad da i wartheg. Gall lleithder ac anwedd mewn adeiladau lle ceir awyru gwael achosi gwartheg butrach. Mae lloriau anwastad, draenio gwael a thoeau, gwteri a chafnau dŵr yn gollwng hefyd yn achosi crwyn gwlyb a budr. Anelwch at wneud y canlynol:

- Sicrhau bod beudai wedi'u hawyru'n dda
- Bod lloriau concrid ar oleddf digonol i ganiatáu draenio digonol, a bod dŵr budr o'r mannau hyn yn cael ei waredu i atal llygredd
- Bod lloriau'n rhydd o dyllau, a thoeau, gwteri a chafnau dŵr yn cael eu cynnal yn dda
- Dylid codi cafnau bwyd goruwch uchder gwelyau, neu osod bariau bwydo ar uchder addas uwchben y llawr, i osgoi llygru bwydydd gan dail.
- Iardiau sy'n gwbl gaeedig wedi'u lleoli gyda'r echelin hydredol yn rhedeg o'r gogledd i'r de
- Iardiau a'u blaenau'n agored yn wynebu tua'r de neu'r de ddwyrain

Iardiau delltog
Gall cadw gormod o stoc a dim digon o stoc gyfyngu ar sathru tail drwy'r dellt gan arwain at fudreddi.

Dylai gwartheg bach gael eu cadw mewn gofod llai (tynnach) i ddechrau, a rhoi mwy o le iddynt, yn ôl eu maint, wrth iddynt dyfu. Pan eir ag anifeiliaid i ffwrdd i'w lladd, dylai'r gofod ar gyfer gweddill y gwartheg gael ei leihau. Efallai y bydd yn bosibl cyfuno grwpiau o fustych neu heffrod, er y dylid osgoi eu cymysgu lle bo'n bosibl, yn enwedig mewn grwpiau sy'n agos at gael eu lladd. Ar gyfer teirw, dylid lleihau maint y gorlan gan ddefnyddio gatiau symudol. Ni ddylid cymysgu anifeiliaid sy'n anghyfarwydd â'i gilydd, yn enwedig grwpiau o deirw oherwydd yr aflonyddwch a'r ymddygiad ymosodol a achosir gan hyn, a fydd ynddo'i hun yn achosi budreddi yn ogystal â gostyngiad mewn perfformiad a mwy o risg o gael anaf.



Mae faint o le a roddir ar gyfer bwydo hefyd yn ystyriaeth. Pan ddarperir dogn sefydlog i wartheg, dylai lle digonol wrth y porthwr fod ar gael i bob anifail ar unrhyw adeg a gallai hyn atal y gyfradd stoc gywir rhag cael ei chyflawni. Nid yw anifeiliaid sy'n cael eu bwydo *ad libitum* angen cymaint o ofod ar gyfer bwydo (lleiafswm o 50% ar unrhyw adeg benodol). Nodir cyfraddau stoc a'r gofod bwydo gorau posibl yn Atodiad 4. Anelwch at gyflawni'r canlynol:

- Cyfraddau stoc sy'n briodol ar gyfer maint y gwartheg
- Storio slyri a system wacau aml sy'n ddigonol i atal dellt rhag blocio
- Ardaloedd o lawr solet naill ben i'r dellt ar oleddf i leihau'r risg o dail yn casglu
- Defnyddio offer yfed o dethi yn hytrach na chafnau dŵr gan eu bod yn lleihau ardaloedd a gaiff eu rhwystro lle y gall tail gasglu
- Rheiliau gwaelod gatiau a rhaniadau corlannau sydd 200-250mm uwchlaw'r llawr
- Symud gwartheg i "iard farchnata" sy'n cynnwys gwellt gwely wrth iddynt agosáu at gyflwr sydd wedi pesgi os bydd angen eu glanhau
- Peidio â chymysgu anifeiliaid o grwpiau gwahanol
- Dylid cymysgu cyn lleied â phosibl tua diwedd y broses o besgi

Neges Allweddol

Mae cymysgu anifeiliaid anghyfarwydd yn cynyddu'r risg o draws-ddifwyno

Bydd dieithriaid yn aml yn rhwbio yn erbyn ei gilydd ond ni fydd anifeiliaid sy'n gyfarwydd â'i gilydd yn gwneud hynny

Iardiau sy'n cynnwys gwellt gwely

Mae gormod o stoc, dim digon o wellt gwely neu daenu gwellt dan draed yn anaml ymhlith y prif resymau dros fudreddi mewn iardiau sy'n cynnwys gwellt gwely. Ni fydd darparu mwy o wellt yn gwneud iawn am gadw gormod o stoc. Bydd peiriannau malu gwellt yn darparu gwellt yn gyflym ac yn wastad, ond dangosodd ymchwil bod rhaid defnyddio digon o wellt os yw anifeiliaid am gael eu cadw'n lân.

Gellir ystyried sglodion pren mawr yn hytrach na gwellt fel gwelyau ar gyfer gwartheg sy'n cael eu pesgi. Mae anifeiliaid yn tueddu i ymgarthu a throethi'n amlach yn yr ardal gadw/bwydo sy'n aml yn mynd yn wlyb a budr iawn mewn iardiau sydd â gwellt ar lawr ym mhob man. Mae'n well felly i ddarparu safle concrid clir sy'n hawdd ei gadw'n lân.

Anelwch at gyflawni'r canlynol:

- Lle sy'n ddigonol ar gyfer maint a nifer y gwartheg.
  Nodir y meintiau gorau posibl yn Atodiad 4
- Ychwanegu gwellt gwely digonol yn aml gan roi digon o wellt i sicrhau glanweithdra
- Ardal gadw/bwydo lân a chrafu rheolaidd
- Dylid storio gwellt gwely dan orchudd, wedi'i lapio neu ei orchuddio'n dda â defnydd plastig a'i gadw ar safle sy'n draenio'n rhydd.

Neges Allweddol

Mae darparu gwellt gwely digonol yn gwella glanweithdra gwartheg

Dylech edrych ar y gwellt gwely sydd ar y fferm, yn y lori pan gludir y gwartheg ac yn y llociau yn y lladd-dy

Cadw mewn cuddyglau

Nid yw cuddyglau'n cael eu hargymell ar gyfer gwartheg sy'n tyfu ac yn cael eu pesgi gan fod angen cynyddu maint y cuddygl wrth i'r anifail dyfu. Os yw cuddyglau'n rhy fach, mae gwartheg yn tueddu i orwedd mewn tramwyfeydd budr tra bo cuddyglau sy'n rhy fawr yn galluogi anifeiliaid i ymgarthu ar y gwely. Mae'r ddwy broblem fel ei gilydd yn arwain at fudreddi.

Iechyd gwartheg

Mae unrhyw salwch neu anhwylder sy'n achosi sgwrio'n cynyddu'r risg o grwyn budr. Mae anifeiliaid chwyslyd hefyd yn mynd yn fudr yn haws. Yn ogystal, mae unrhyw salwch yn

lleihau gallu cyffredinol yr anifail i wrthsefyll clefydau; felly mae gwartheg sâl yn fwy tueddol o gael haint arall, er enghraifft *E. coli* a *Salmonella*. O'r herwydd, mae rheolaeth dda dros iechyd buches yn gyffredinol yn bwysig o ran lleihau'r risg i wartheg gario organebau pathogenaidd ar adeg eu lladd, a allai arwain at wenwyn bwyd mewn pobl.

Dylai cynllun iechyd ataliol cyffredinol da ar fferm gynnwys:

- Deiet cytbwys
- Atal coccidiosis a salmonellosis drwy hylendid da a defnydd priodol o feddyginiaeth filfeddygol
- Trin llyngyr yn briodol yn ystod pori (gan ofalu cydymffurfio â chyfnodau diddyfnu yng nghyswllt cyffuriau gwrthlynghyrol)
- Trin llyngyr yn briodol mewn beudai i atal ostertagiasis dros y gaeaf (mae gan gyffuriau fel ivermectin i waredu llyngyr fantais ychwanegol o ran rheoli parasitiaid allanol)
- Atal diffyg copr – un o achosion cyffredin sgwrio
- Cyflenwad priodol o ategion mwynau/fitaminau priodol sydd wedi'u cydbwyso'n gywir
- Atal niwmonia
- Hylendid cyffredinol a hwsmona da

Tocio gwartheg pan gânt eu cadw dan do

Mae tocio cefnau gwartheg pesgi yn y beudai (oddeutu 5cm bob ochr i'r asgwrn cefn) yn helpu i leihau chwysu a'r risg o grwyn gwlyb a budr. Dylid tocio cynffonau yn y beudy i osgoi baw rhag cael ei fflicio dros y croen.

Os oes agen tocio blew budr ar fol ac ochrau gwartheg, dylid oedi rhag tocio nes bod yr anifail yn barod i'w ladd. Mae anifeiliaid a aiff i'r farchnad o fis Mawrth ymlaen yn debygol o fwrw unrhyw flew hir ac unrhyw faw sy'n glynu wrtho, yn

naturiol. Dangoswyd fod tocio'n cael gwared â baw gweladwy cyn lladd, ond gall tocio'r rhannau hyn ynghynt olygu y gall baw wedyn lynu wrth y bydd yn anos ei lacio. Mae angen bod yn ofalus iawn wrth docio i atal anafu staff neu anifeiliaid y fferm, ac ni ddylid gwneud hyn ond lle bo cyfleusterau ac offer digonol ar gael.

Mae Taflen Wybodaeth Amaethyddol Rhif 35 y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE) yn amlinellu ymarfer diogel o ran tocio. Gweler Atodiad 5.

- Ni ddylid tocio yn y beudy ond pan fo angen atal anifeiliaid rhag chwysu (5cm bob ochr i'r asgwrn cefn)
- Dylai tocio i lanhau ar gyfer lladd gael ei wneud cyn agosed at y dyddiad lladd ag sydd bosibl
- Dylid cadw cynffonau'n fyr

Paratoi gwartheg ar gyfer eu lladd

Yn amlwg, dylid anelu at atal anifeiliaid rhag mynd yn fudr yn y lle cyntaf, ond gallai rhywfaint o lanhau fod yn angenrheidiol cyn lladd (cyfeirier at Atodiad 1 ar gyfer y Rheoliadau). Mae niferoedd y gwartheg budr a gyflwynir i ladd-dai yn y DU yn gostwng o fis Mawrth ymlaen, gan fod gwartheg yn colli eu cotiau gaeaf ac unrhyw faw y maent yn eu cario'n naturiol. Fodd bynnag, mae rhai bridiau cynhenid Prydeinig sy'n tueddu i beidio â cholli cotiau hir y gaeaf mor fuan â gwartheg eraill ac felly maent yn fwy tebygol o fod angen sylw cyn cael eu lladd. Ar gyfer gwartheg sy'n cael eu pesgi ar silwair, gwreiddiau, grawn bragu ayb, ystyriwch newid i ddogn sychach e.e. dogn seiliedig ar rawnfwyd, wrth i wartheg ddynesu at gyflwr wedi pesgi. Archwiliwch bob anifail yn rheolaidd wrth eu pesgi a chyn iddynt adael y fferm, gan ddefnyddio'r enghreifftiau yn Atodiad 2. Efallai y bydd angen tocio, neu gallai gwartheg lanhau eu hunain yn ddigonol os symudir hwy o "iard farchnata" sy'n

cynnwys gwellt gwely digonol. Mae ymchwil wedi dangos fod gwartheg sy'n cael eu bwydo ar wellt a dŵr yn unig, am hyd at 36 awr cyn eu cludo i'w lladd, yn dioddef llai o achosion o ddifwyno â thail yn ystod y cludo. Mae rhai manwerthwyr yn mynnu'r dull hwn o fwydo bellach. Ni ddylid estyn y cyfnod hwn gan nad oes unrhyw fudd ychwanegol i gynyddu'r cyfnod o amser y tu hwnt i 48 awr.

Dylech osgoi golchi gwartheg wedi'u pesgi cyn eu lladd. Rhaid i'r croen fod yn gwbl sych cyn i'r anifail adael y fferm gan fod gwlybaniaeth mewn croen wedi cael ei gysylltu â lefelau uwch o facteria ar y croen. Peidiwch byth â defnyddio pibell ddŵr bwerus i lanhau gwartheg. Mae hyn yn achosi loes i'r anifail ac yn debygol o achosi cleisio a gostwng gwerth y carcas.

- Dylid asesu glanweithdra gwartheg pesgi a chymryd camau priodol
- Dylid ystyried deiet pesgi
- Dylid defnyddio 'iard farchnata' sy'n cynnwys gwellt gwely (gweler isod) ar gyfer gwartheg budr
- Dylid cael crwyn sych

Neges Allweddol

Mae gwartheg gwlyb yn berygl sylweddol

Mae'n haws mynd yn fudr mewn tywydd gwlyb ac mae cotiau gwlyb yn golygu mwy o facteria

Yr Iard Farchnata

Os bydd angen glanhau gwartheg cyn eu lladd, efallai y bydd angen eu symud i iard farchnata. Dylai iard farchnata ddarparu'r amodau gorau posibl i annog glanweithdra gwartheg: cyflenwadau digonol o wellt gwely o ansawdd da a digon o le (gweler Atodiad 4). Yn ddelfrydol, dylai amodau o'r fath fodoli yn y corlannau pesgi arferol. Yna efallai y bydd anifeiliaid sydd yn wlyb neu ychydig yn fudr yn addas ar gyfer y farchnad o fewn diwrnod neu ddau, ond os bydd gwartheg yn fudr iawn efallai y byddant angen 3 i 4 wythnos i lanhau mewn iard gyda gwellt gwely digonol. Dengys tystiolaeth fod cymysgu grwpiau o anifeiliaid yn cynyddu'r risg o drosglwyddo difwyniad ac felly dylid gwneud cyn lleied â phosibl o hyn.



Dangosodd ymchwil y gall bacteria oroesi'n dda mewn amgylchedd sy'n cynnwys da byw, felly, yn ddelfrydol, dylai'r ardal gael ei glanhau a'i diheintio cyn i grŵp newydd o anifeiliaid gael eu cyflwyno. Mae dylunio a rheoli beudai yn dda yn annog glanweithdra ac mae hyn yn amlwg yn bwysig.

- Dylid sicrhau y caniateir digon o amser yn yr iard farchnata i anifeiliaid gael eu glanhau
- Dylid darparu digon o wellt gwely
- Dylid cadw gwartheg ar y dwysedd stoc cywir
- Dylid darparu deiet addas. Bydd newidiadau sydyn mewn deiet yn achosi anhwylder ar y stumog

Neges Allweddol

Mae bacteria'n goroesi'n dda mewn amgylchedd sy'n cynnwys da byw

Dylid cadw'r fferm, y cludiant, y farchnad a'r ardaloedd cadw mor lân â phosibl

Tocio gwartheg cyn eu lladd

Os bydd gwartheg yn parhau'n fudr, efallai y bydd angen eu tocio yn union cyn iddynt gael eu lladd, er mwyn eu glanhau. Gwaredwch ormodedd o fudreddi drwy docio, yn enwedig ar y frisged, yr ochrau, y bol, y coesau, y pen-gliniau a chymalau'r forddwyd (rhannau lle y mae'r risg o drosglwyddo difwyniad i'r carcas yn uchel).

Mae angen bod yn ofalus iawn wrth docio i osgoi achosi niwed i'r anifail neu i staff. Rhoddir canllawiau pellach ar gyfer tocio yn

Nhaflen Wybodaeth Amaethyddol Rhif 35 y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE) (Atodiad 5) y dylid ei darllen a'i deall cyn ymgymryd â gwaith tocio.



- Defnyddiwch welleifiau a gedwir yn dda gyda chrib benodol i atal y croen rhag torri
- Gwisgwch ddillad amddiffynnol addas: het galed ac esgidiau gyda dur yn y blaen
- Defnyddiwch dorrwr cylched a pheidiwch â thocio gwartheg gwlyb
- Dylid ffrwyno gwartheg yn ddiogel mewn gwasgfa briodol - gweler Taflen Wybodaeth Rhif 35 y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE) yn Atodiad 5
- Byddwch yn llonydd, yn dawel ac yn hyderus drwy gydol y broses docio
- Dechreuwch docio ar ran lân o'r cefn, i 'r anifail ddod yn gyfarwydd â sŵn a theimlad y gwelleifiau, cyn symud i'r bol a'r coesau
- Byddwch yn barod i docio anifeiliaid sy'n arbennig o fudr dros gyfnod o sawl diwrnod i osgoi straen diangen i'r anifail

Neges allweddol

Gall tocio waredu baw gweledol

Ond defnyddiwch y broses o docio fel y dewis olaf. Gall achosi straen i'r anifail, gall niweidio'r croen ac achosi anaf i'r gweithredwr

Glanhau gwartheg ar ôl eu lladd

Gellir tocio gwartheg neu ddefnyddio dulliau glanhau post-mortem eraill, yn y lladd-dy ar yr amod y gall y gweithredwr ddangos bod y dull o docio neu lanhau yn rheoli yn effeithiol unrhyw risgiau diogelwch bwyd a allai godi. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, rheoli'r risg o'r blew a'r baw a allai syrthio wrth gwblhau'r weithred a sicrhau bod croen wedi ei docio neu ei lanhau yn ddigon glân fel na chaiff y carcas ei halogi'n annerbyniol wrth ei drin.

Cludo gwartheg sydd wedi eu pesgi

Dylid glanhau a diheintio cerbydau rhwng llwythi i atal bacteria a chlefydau rhag goroesi yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth gyfredol, megis Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Lloegr) (Rhif 3) 2003[2], a'r Gorchymyn Rheoli Clefydau perthnasol. Mae rheoliadau cyfatebol yng Nghymru a'r Alban yn berthnasol. Dylai ffermwyr a chludwyr gysylltu â swyddfa leol yr Adran Amaethyddiaeth am gyngor ar reoliadau bioddiogelwch cyfredol. Dylai cyfraddau stoc ddilyn argymhellion Rheoliad y Cyngor (CE) Atodiad 1, Pennod VII a chaniatáu i rai anifeiliaid orwedd i lawr yn ddiogel. Dylid defnyddio rhaniadau, lle bo'n briodol, i atal anafiadau o ganlyniad i beidio â chludo digon o stoc. Dylid darparu gwellt gwely digonol fel gwellt ffres glân. Dylid osgoi blawd llif gan ei fod yn glynu wrth grwyn a gallai achosi problemau pan gaiff carcas yr anifail ei drin. Dylai amser a phellter y daith fod yn unol â gofynion Rheoliad (CE) Rhif 1/2005 1/2005

2 Gorchymyn Cludo Anifeiliaid a Dofednod (Glanhau a Diheintio) (Gogledd Iwerddon) 2007. Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) 2003 Rheoliadau Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Yr Alban) 2005

Lles gwartheg

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod glanweithdra gweledol a bacteriol yn gostwng wrth i amser a phellter y daith gynyddu. Cynghorir y dylid addasu'r deiet, neu beidio â bwydo'r anifail am gyfnod byr cyn cludo, er mwyn lleihau achosion o faeddu. Mae bwydo'r gwartheg ar ddeiet gwellt am 1-2 ddiwrnod cyn eu cludo wedi profi'n fuddiol. Pan gludir anifeiliaid i'r farchnad neu i'w lladd, dylid ystyried y pwyntiau canlynol:

- Defnyddiwch gludwyr sydd ag enw da iddynt
- Ystyriwch y deiet cyn cludo
- Dylai cerbydau fod yn lân, wedi'u diheintio a'u hawyru'n dda
- Digon o wellt gwely glân a ffres
- Dylai anifeiliaid fod yn sych wrth gael eu llwytho a'u cadw'n sych drwy'r daith, hyd nes y cânt eu lladd
- Dylid osgoi cymysgu anifeiliaid

Neges allweddol

Gall ffactorau sy'n gysylltiedig â chludo effeithio ar lanweithdra gwartheg

Meddyliwch am hyd y daith, cynllun y lori a faint o anifeiliaid sydd ynddi

Lles gwartheg

Mae gan berchnogion a'r rhai sy'n gofalu am wartheg gyfrifoldeb cyfreithiol dros ddiogelu lles anifeiliaid bob amser. Mae Atodiad 6 yn disgrifio'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i les gwartheg.

Casgliad

Bydd dilyn y cyngor yn y llyfryn hwn yn helpu i sicrhau yr anfonir gwartheg glân i'w lladd. Bydd anfon gwartheg glân i'w lladd yn creu manteision sylweddol ar gyfer y cynhyrchydd, gweithredwr y lladd-dy, y manwerthwr, y defnyddiwr a'r holl bobl sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gynhyrchu cig eidion. Bydd hefyd yn cynorthwyo i gryfhau hyder defnyddwyr mewn cig eidion yn y DU.

Mae amrywiaeth o bosteri sy'n pwysleisio'r 10 neges allweddol ar gyfer cynhyrchu gwartheg cig eidion glân i'w lladd ar gael i'w llwytho oddi ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn http://www.food.gov.uk/sites/default/files/multimedia/pdfs/cleancattleposters.pdf

Atodiad 1: Gofynion deddfwriaethol ar gyfer da byw glân adeg eu lladd

Mae Rheoliadau Hylendid Bwyd cyfredol yr UE (Rhif CE 852/2004, Rhif CE 853/2004 a Rhif CE 854/2004) yn pwysleisio cyfrifoldeb pob gweithredwr busnes bwyd (gan gynnwys gweithredwyr lladd-dai) i gynhyrchu bwyd yn ddiogel drwy gymhwyso arferion hylendid da a gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion dadansoddi peryglon a phwynt rheoli critigol (HACCP). Mae Rheoliad y CE 852/2004 (H1) yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd sy'n magu anifeiliaid, i sicrhau, cyn belled â phosibl, lendid anifeiliaid sy'n mynd i'w lladd a, lle bo angen, anifeiliaid sy'n cael eu cynhyrchu. Mae Rheoliad CE 853/2004 (H2) yn darparu'r gofynion o ran rheoli hylendid adeg lladd anifeiliaid ac yn nodi y dylai anifeiliaid fod yn 'lân' cyn cael eu derbyn ar safle'r lladd-dy.

Mae Rheoliad CE 854/2004 (H3) yn nodi na all anifeiliaid â chrwyn neu gnuoedd sy'n peri risg annerbyniol o halogi cig yn ystod y broses o ladd gael eu lladd i'w bwyta gan bobl oni chânt eu glanhau ymlaen llaw.

Gallwch weld y wybodaeth hon yn y Guide to Food Hygiene and Other Regulations for the UK Meat Industry, pennod 11, sydd ar gael ar lein yn http://www.food.gov.uk/business-industry/meat/guidehygienemeat

Atodiad 2: Dosbarthu gwartheg o ran glanweithdra

Gellir defnyddio'r lluniau yn yr atodiad hwn i asesu glendid gwartheg.

Ystyrir bod anifeiliaid sych, sy'n ymddangos yn debyg i'r enghreifftiau a roddir isod, neu sy'n lanach na hwy, yn ddigon glân i gael eu lladd.

Mae'n debygol y bydd angen rhoi sylw ychwanegol yn y lladd-dy i anifeiliaid sy'n fwy budr na'r enghreifftiau isod, yn enwedig os ydynt yn wlyb. Os bydd rhaid i weithredwr y lladd-dy gadw anifeiliaid cyn eu lladd, arafu'r llinell ladd neu gymryd mesurau ychwanegol, byddant yn mynd i gostau ychwanegol.

Atodiad 3: Diogelwch bwyd a HACCP

Mewn system HACCP, nodir pob perygl posibl i ddiogelwch bwyd ym mhob cam o'r gadwyn gynhyrchu. Pwynt, cam neu weithdrefn lle y mae angen cymhwyso rheolaeth i atal, dileu neu leihau perygl bwyd i lefel briodol yw Pwynt Rheoli Critigol (CCP). I sicrhau diogelwch bwyd, caiff pob Pwynt Rheoli Critigol ei fonitro i sicrhau ei fod o fewn terfynau critigol.

Os bydd terfynau mewn perygl o gael eu torri, rhaid cymryd camau gweithredu i unioni'r sefyllfa. Dylai'r ymagwedd systematig hon, os caiff ei gweithredu'n gywir, sicrhau y cynhyrchir bwyd yn ddiogel.

Dyma saith egwyddor system HACCP:

- Cynnal dadansoddiad o beryglon a datblygu siartiau llif o ran cynhyrchu
- Nodi'r Pwyntiau Rheoli Critigol
- Sefydlu terfynau critigol h.y. Gosod lefelau targed y mae'n rhaid eu cyflawni i sicrhau bod y Pwynt Rheoli Critigol o dan reolaeth
- Sefydlu system i fonitro'r gwaith o reoli'r Pwynt Rheoli Critigol
- Sefydlu camau unioni i'w cymryd pan fydd y gwaith monitro'n dangos nad yw Pwynt Rheoli Critigol p dan reolaeth
- Sefydlu gweithdrefnau dilysu i gadarnhau bod y system HACCP yn gweithio'n iawn
- Sefydlu dogfennaeth/cofnodion ar gyfer pob gweithdrefn

Manteision defnyddio ymagwedd sy'n nodweddiadol o HACCP:

- Rhagweithiol yn y gwaith o nodi peryglon sy'n ymwneud â diogelwch bwyd cyn iddynt ddigwydd

- Sicrhau'r diogelwch gorau posibl o ran cynnyrch h.y. gwartheg glân
- Annistrywiol

- Darparu tystiolaeth o ddiwydrwydd priodol
- Cost-effeithiol
- Sicrhau diogelwch gan gynnwys pob aelod o staff

Atodiad 4: Faint o le yr awgrymir ei roi i wartheg cig eidion a gedwir dan do

Tabl 1: Faint o le y dylid ei roi i anifeiliaid ar loriau sy'n gwbl ddelltog a gofynion gofod ar gyfer cafnau.

		Gofod ar gyfer cafnau (mm/pen)	
Pwysau byw (Yr anifail (kg)	Arwynebedd (ac eithrio'r Cafnau) (m2/pen)	Cyfyngedig bwydo	Ad lib Bwydo
200	1.1	400	10
300	1.5	500	12
400	1.8	600	15
500	2.1	600	15
600	2.3	600	15

Tabl 2: Faint o le a roddir mewn iardiau sy'n cynnwys gwellt gwely

Pwysau byw yr anifail (kg)	Ardal gyda gwellt gwely (m2/pen)	Ardal gadw/bwydo (m2/pen)	Cyfanswm arwynebedd (m2/pen)
200	2.0	400	100
300	2.	500	125
400	2.6	600	150
500	3.	600	150
600	3.4	600	150

Ffynonellau:
1. Farm and Rural Buildings Pocketbook (1991)

Atodiad 5: Taflen wybodaeth HSE (Saesneg yn unig)

Health and Safety Executive

The race
Check that:

- animals can readily enter the race, which should have a funnel end, and there is enough room in the collecting pen for them to feed into the funnel easily. A circular collecting pen allows staff to stand safely behind a forcing gate as they move animals into the race, and keeps the animals moving;
- animals can see clearly to the crush and beyond, so they will readily move along the race, which may be curved, but should not include tight turns. Animals will be more prepared to move towards a light area than into the dark;
- the sides of the race are high enough to prevent animals from jumping over them, and they are properly secured to the ground and to each other – sheeting the sides of the race helps to keep cattle moving by reducing visual disturbances such as shadows and shields them from other animals; and
- you can contain the lead animal in the race while it waits its turn in the crush. Hinged or sliding doors are suitable, but be sure they are operated from the working side of the race so the operator does not have to reach across it to close the gate. No one should work on an animal in the crush with an unsecured animal waiting in the race behind.

The crush
A crush which will allow most straightforward tasks to be carried out in safety (including oral treatments and work from the rear end, **but not** belly or foot trimming) will:

- have a locking front gate and yoke (ideally self-locking) to allow the animal's head to be firmly held. Additional head bars will prevent the animal tossing its head up and injuring people;
- have a rump rail, chain or bar to minimise forward and backward movement of the animal. Make sure this is always used;
- be secured to the ground or, if mobile, to a vehicle;
- be positioned to allow you to work safely around it, without the risk of contact with other animals, and have good natural or artificial lighting;
- allow gates etc to open smoothly with the minimum of effort and noise. Regular maintenance will help; and
- have a slip-resistant floor, made of sound hardwood bolted into place (nails are not suitable), metal chequer-plate, or with a rubber mat over the base.

Consider the need for shedder gates after the crush to allow animals to be sorted into groups. Work around the crush will be more convenient if it is under cover with a workbench nearby (for documentation, veterinary medicines, instruments etc).

Belly clipping
While some abattoirs offer a post-slaughter clipping service, cattle are usually required to be presented to an abattoir in a clean condition. Research has shown that the dirtier the hide, the greater the potential for carcase contamination with bacteria such as *E coli O157*. To achieve the standards needed, farmers may need to:

- change their cattle production practices to keep cattle clean and reduce the need for clipping;
- improve housing and transport arrangements;
- clip the lower parts of the animals before sending them to the abattoir.

The Food Standards Agency has produced advice on husbandry systems farmers can adopt to keep animals clean, *Clean beef cattle for slaughter: A guide for producers* (see 'Further reading').

The husbandry aspects discussed include; finishing cattle at grass, diet, housing, the general health of cattle and the use of a marketing yard. Putting these systems in place will reduce the need to clean cattle before they leave the farm.

Even with good husbandry practices it may be necessary from time-to-time to clip parts of your cattle before presenting them for slaughter. If you do, you will need to take precautions to help control the risk of injury.

The main hazards are from crushing when you move the animal from the pen to the crush and kicking when you access the underside of the animal to clip it. Clipping should only be carried out using properly designed handling equipment and safe working techniques. It is therefore essential that you assess the suitability of your cattle handling facilities and whether you need to modify their design, and to working methods or tools.

Remember that:

- some cattle will be semi-wild and not used to being handled;
- you cannot safely clip the belly of an animal in a crush with enclosed and fixed bottom sides, or which has permanently fixed vertical or horizontal bars close to the belly area of the animal;
- the flanks and legs can be clipped in relative safety standing up and behind the animal, but belly clipping will always involve work forward of, and close to, the rear legs.

In addition to the general guidance on the use of crushes, check that:

- you can fully open the bottom half of the sides of the crush;
- there are no permanent vertical bars when the doors are open which could allow the operator's hand to be trapped if the animals kicks;
- both sides of the crush open and that you have enough room along each side of the crush to work safely. If not, you will have to reach underneath the animal – this is **not** safe practice;
- you can avoid stretching too far from one position during clipping, as this will result in your head moving down and in towards the animal;
- you can work facing the front of the animal, as this will prevent you leaning into the direction of any kick;
- the animal will be adequately restrained from kicking – consider whether you should use an anti-kicking device.

http://www.hse.gov.uk/pubns/ais35.pdf

Atodiad 6: Gofynion deddfwriaethol ar gyfer lles gwartheg

Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 a Rheoliadau Lles Anifeiliaid Fferm (Lloegr) 2007 (S.I. 2007, Rhif 2078)[5], yn ei gwneud yn drosedd chosi neu ganiatáu poen neu ofid diangen.

Mae difwyno'r croen â thail yn peryglu lles yr anifail drwy achosi niwed i'r croen, poen a risg o haint. Yn ogystal, mae'n bosibl y caff anifeiliaid sy'n cael eu cyflwyno mewn cyflwr budr eu hanfon i'r llociau i'w glanhau. Gallai'r driniaeth ychwanegol hon achosi straen diangen i'r anifail.

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid Fferm (Lloegr 2007 yn ei gwneud yn ofynnol i dda byw gael cyflenwad digonol o ddŵr yfed ffres bob dydd ac i gael mynediad at fwyd bob dydd. Rhaid i'r deiet fod yn iach, yn briodol i'r math o anifail, ac y rhoddir digon ohono i gynnal iechyd da ac i fodloni anghenion maethol. Lle y cedwir unrhyw dda byw, ar wahân i ddofednod, mewn adeilad, dylid eu cadw ar ardal o dir gorwedd a gaiff ei ddraenio'n dda, sy'n cael ei chynnal yn dda ac sy'n cynnwys gwellt sych, a dylent gael mynediad i'r ardal hon bob amser. Mae'r Cod Argymhellion ar gyfer Lles Da Byw: Gwartheg (Rheoliadau Lles Anifeiliaid Fferm (Lloegr) 2000 (S.I. 2000 Rhif 1870)[5])yn nodi:

- Rhaid bwydo anifeiliaid ar ddeiet iach sy'n briodol i'w hoedran a'u rhywogaeth, ac y rhoddir digon ohono i'w cadw'n iach ac i fodloni eu hanghenion maethol ac i hyrwyddo cyflwr cadarnhaol o les.
- Rhaid i bob anifail naill ai allu mynd at gyflenwad digonol o ddŵr ac y darperir cyflenwad digonol o ddŵr yfed ffres iddo bob dydd, neu'n gallu bodloni ei anghenion yfed hylif drwy ddulliau eraill. Dylai fod digon o dwr ar gael am o leiaf

[4] Yng Ngogledd Iwerddon, Deddf Lles Anifeiliaid 2011.
[5] Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Gogledd Iwerddon) 2012 & Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Yr Alban) 2010. Rhif 388

10% o wartheg a gedwir dan do ei yfed ar yr un pryd. Dylai anifeiliaid pori fod yn gallu cael mynediad at nifer o gafnau dŵr (sy'n ddigon mawr ac wedi'u dylunio'n gywir) neu ryw ffynhonnell arall o ddŵr yfed y gall yr anifeiliaid ei ddefnyddio'n hawdd lle bynnag y byddant yn pori

- Rhaid i offer bwydo a dyfrhau gael eu dylunio, eu hadeiladu, eu gosod a'u cynnal er mwyn lleihau'r risg o ddifwyno bwyd a dŵr ac effeithiau niweidiol cystadleuaeth rhwng anifeiliaid
- Dylid cadw pob iard a rhodfa goncrid mewn cyflwr da. Lle y defnyddir lloriau delltog, dylech roi sylw penodol i'r math o ddellt a ddefnyddir, i osgoi llithrigrwydd. Dim ond corlannau delltog ar gyfer maint yr anifail y'i dyluniwyd ar ei gyfer y dylid eu defnyddio, a dylai rhan o'r adeilad fod yn ardal llawr solet gyda gwellt neu ryw ddeunydd gwely addas.
- Lle y cedwir unrhyw anifail mewn adeilad rhaid ei gadw ar fan gorwedd sydd naill ai'n cynnwys gwellt gwely sych wedi'i gadw'n dda, neu a gaiff ei ddraenio'n dda, neu dylai allu mynd i fan o'r fath bob amser.
- Caiff cylchrediad aer, lefelau llwch, tymheredd, lleithder cymharol a chrynodiadau nwy eu cadw o fewn terfynau nad ydynt yn niweidiol i'r anifeiliaid
- Dylid cadw teirw a gaiff eu magu i'w lladd mewn grwpiau bach, nad ydynt, o ddewis, yn cynnwys mwy nag 20 anifail. Fel rheol, ni ddylid ychwanegu teirw at grwpiau sydd eisoes wedi'u creu, ac ni ddylid ychwaith ychwanegu un grŵp o deirw at grŵp arall i'w hanfon i'w lladd. Dylid cadw grwpiau o deirw bellter diogel oddi wrth wartheg benyw
- Mae cynllunio cylchdro pori a defnyddio cynnyrch meddyginiaethol effeithiol neu frechiadau yn rheoli parasitiaid. Dylid trin anifeiliaid ar gyfer parasitiaid gyda chyngor y milfeddyg

Rhagor o wybodaeth

Gwefannau Defnyddiol

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd – **www.food.gov.uk**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – **www.cymru.gov.uk**

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig – **www.defra.gov.uk**

Gweithrediaeth yr Alban – **www.scotland.gov.uk**

Cynulliad Cenedlaethol Gogledd Iwerddon – **www.ni-executive.gov.uk**

ADAS – **www.adas.co.uk**

Iechyd Cyhoeddus Lloegr – **www.gov.uk/government/organisations/public-health-england**

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor am fwyd, ewch i wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd **food.gov.uk**

Cysylltu â ni

Hoffwch ni ar Facebook food.gov.uk/facebook

Ymunwch â'n sgwrs food.gov.uk/twitter

Gwyliwch ni ar YouTube food.gov.uk/youtube

Cael ein newyddion drwy RSS food.gov.uk/rss

Cael ein newyddion drwy e-bost food.gov.uk/rss

© Hawlfraint y Goron 2016

Cyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau bwyd (Diwygiwyd 2016)